# Teyrnas

geiriau: Cass Meurig  alaw: Hiraeth (tradd)

Fel y lefain yn y blawd
Wedi ei guddio a'i dylino
Eto'n tyfu yn y dirgel
Nes caiff y cwbl ei lefeinio
Tebyg i hyn mae teyrnas Dduw
Tebyg i hyn mae teyrnas Dduw

Fel yr hedyn lleiaf un
Wedi ei guddio'n anweledig
Eto'n tyfu'n llwyn canghennog
Lle caiff yr adar nythu'n ddiddig
Tebyg i hyn mae teyrnas Dduw
Tebyg i hyn mae teyrnas Dduw

Fel y trysor yn y cae
Wedi ei guddio, wedi ei gladdu
Eto rhywun, wedi ei ganfod,
Werthodd y cwbl er ei brynu
Tebyg i hyn mae teyrnas Dduw
Tebyg i hyn mae teyrnas Dduw